



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi ar Ymgyrchu Etholiadol ar Dir ac yn Adeiladau'r Brifysgol.

Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau
1af Chwefror, 2016	Cyhoeddiad Cyntaf	15fed Mehefin, 2016
8fed Mai, 2017	Man newid wedi ei gytuno gan Gadeirydd, Grŵp Tasg Cydymffurfio	
30ain Medi, 2019	Diwygiad a chymeradwyaeth	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Cydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Grŵp Tasg Cydymffurfio	30ain Medi, 2019

Caiff y Polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd

1. Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle caiff pawb ei drin gydag urddas a pharch, a'u diogelu rhag aflonyddu, bwlio, erledigaeth a gwahaniaethu yn y gwaith ac wrth astudio. Dylai pob aelod o gymuned y Brifysgol allu gweithio ac astudio mewn amgylchedd sy'n annog cytgord.

Wrth lunio'r ddogfen Bolisi hon mae Prifysgol Bangor, fel sefydliad â statws elusen, wedi ymgynghori â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau, sef *Dweud eich dweud: Ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol gan elusennau, Canllawiau: Elusennau, Etholiadau a Refferenda*, a hefyd dogfen y Comisiwn Etholiadol, *Elusennau ac Ymgyrchu*.

Gan ddilyn y dogfennau canllaw hyn, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Polisi canlynol ar ymgyrchu etholiadol ar holl safleoedd y Brifysgol, yn cynnwys ei neuaddau preswyl a phob un o adeiladau Undeb Myfyrwyr Bangor.

2. Rhychwant y Polisi

Mae'r Polisi hwn yn delio'n benodol ag ymgyrchu ar eiddo Prifysgol Bangor ar gyfer etholiadau lleol a chenedlaethol a refferenda cenedlaethol; a hefyd gyda cheisiadau i gynnal cyfarfodydd a / neu hystingau mewn perthynas â'r etholiadau a / neu refferenda hynny ar eiddo Prifysgol Bangor.

Nid yw'r Polisi hwn yn delio â'r holl weithgareddau eraill sy'n digwydd ar eiddo'r Brifysgol (yn cynnwys gweithgareddau eraill sy'n digwydd mewn adeiladau sy'n perthyn i Undeb y Myfyrwyr neu sy'n cael eu defnyddio gan yr Undeb) a'r prosesau i'w dilyn mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn yr ymdrinnir â nhw dan y gweithdrefnau a amlinellir yn y *Cod Ymddygiad ar Ryddid i Lefaru*.

Mae'r Polisi hefyd yn cymryd i ystyriaeth ofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a gweithdrefnau'r Brifysgol fel y'u nodwyd yn y *Polisi 'Prevent'*.

Mae'r Polisi hwn hefyd wedi cael ei fabwysiadu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Bangor sydd â'u trefn weithredu eu hunain sy'n cwmpasu'r holl weithgareddau a gynhelir dan faner Undeb y Myfyrwyr (yn cynnwys Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor tra bo'n gysylltiedig ag Undeb Myfyrwyr Bangor.)

3. Datganiad Polisi

- [a] Bydd y Brifysgol yn ymddwyn mewn ffordd annibynnol, deg a thryloyw wrth ystyried unrhyw weithgareddau gwleidyddol ar ei heiddo. Bydd pob plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol, eu haelodau a'u hymgeiswyr a hoffai ymgyrchu ar eiddo Prifysgol Bangor yn cael eu trin yn gyfartal, ac yn unol â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998, a darpariaethau'r Polisi hwn.
- [b] Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau ar ymgyrchu a gweithgaredd gwleidyddol gan elusennau. Fel elusen, ni all unrhyw ymgyrchu na gweithgaredd gwleidyddol gan y Brifysgol gael eu cynnal ddim ond yng nghyd-destun cefnogi'r cyflawni ar ei hamcanion elusennol. Bydd y Brifysgol yn parhau'n annibynnol ac yn sicrhau bod unrhyw ymwneud fydd ganddi â phleidiau gwleidyddol yn gytbwys. Ni fydd yn cefnogi nac yn ariannu unrhyw blaid wleidyddol na'r un ymgeisydd gwleidyddol.
- [c] Gall ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol a'u cynrychiolwyr logi adeiladau'r Brifysgol ar gyfer cyfarfodydd preifat neu gyhoeddus. Bydd llogi felly yn dod o dan delerau ac amodau llogi a chyfraddau perthnasol arferol y Brifysgol.

- [d] Rhaid i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol a'u cynrychiolwyr beidio rhannu na dangos, yn gyhoeddus, unrhyw ddeunydd hyrwyddo mewn perthynas â'u hymgyrch ar eiddo'r Brifysgol. Mae deunydd o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, bosteri, taflenni, arwyddion a llyfrynnau. Bydd staff y Brifysgol yn cael gwared ar unrhyw ddeunydd o'r fath.
- [e] Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gyhoeddi ac, os bydd yn dymuno, gwneud sylwadau ar safbwyntiau pleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol mewn etholiadau lleol a chenedlaethol neu refferenda cenedlaethol lle bo'r safbwyntiau hyn yn berthnasol i ddibenion elusennol y Brifysgol a lle bydd eu cyhoeddi yn cynyddu diddordeb a thrafodaeth ar y dibenion hyn ymysg y cyhoedd.

4. **Gweithdrefn ar gyfer Ymgyrchu Etholiadol ar Dir ac yn Adeiladau Prifysgol Bangor.**

A: Prifysgol Bangor

Mae'r weithdrefn hon i'w defnyddio ar gyfer pob cais i ymgyrchu, cynnal cyfarfodydd a / neu hystingau ar eiddo'r Brifysgol. At ddiben y Weithdrefn hon, caiff pob cynulliad o'r fath ei adnabod fel "digwyddiad".

- [i] Rhaid i geisiadau gan bleidiau neu ymgeiswyr gwleidyddol i ddefnyddio eiddo Prifysgol Bangor gael eu gwneud, yn y lle cyntaf, at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol, drwy'r Swyddfa Gynadleddau. Gall y Cyfarwyddwr benodi aelodau llawn-amser eraill o staff y Brifysgol i weithredu ar ei ran i reoli gofynion gweithredol y Polisi hwn.
- [ii] Rhaid i drefnydd digwyddiad sy'n syrthio o fewn cylch gorchwyl y Polisi hwn roi gwybod i'r Swyddfa Gynadleddau am ddigwyddiad o'r fath o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y digwyddiad. Os trefnir digwyddiad o'r fath gyda llai o rybudd, rhaid i'r trefnydd roi gwybod i'r Swyddfa Gynadleddau ar unwaith.
- [iii] Bydd y Swyddfa Gynadleddau yn:
- Sicrhau bod y blaidd wleidyddol, ei chynrychiolwyr a / neu ei hymgeiswyr yn cael gwybod am y Polisi hwn ac yn cytuno i gadw ato;
 - Cadarnhau gyda'r Swyddfa Gynadleddau / Uned Amserlennu nad yw'r archeb yn gwrthdaro gydag unrhyw ddigwyddiad sydd wedi ei archebu eisoes, p'un ai bod hwnnw'n un o ddigwyddiadau'r Brifysgol neu beidio.
 - Hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
- [iv] Bydd trefnydd / trefnwyr y digwyddiad yn:
- Sicrhau bod un unigolyn yn cael ei benodi'n **Brif Drefnydd** y digwyddiad a bydd hwnnw / honno wedi ei (g)rymuso'n llawn i wneud ymrwymadau ar ran y trefnwyr eraill - dylid rhoi gwybod i'r Swyddfa Gynadleddau pwy yw'r Prif Drefnydd;
 - Sicrhau bod Prif Drefnydd digwyddiad yn rhoi manylion ysgrifenedig am y digwyddiad, yn cynnwys enwau unrhyw siaradwyr, y lleoliad, ffurf a diben y digwyddiad ac asesiad risg addas, i'r Swyddfa Gynadleddau o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad arfaethedig y digwyddiad. Pe bai digwyddiad yn cael ei drefnu ar fyr rybydd yna dylai'r Prif Drefnydd ddanfôn manylion cyn gynted a bo modd at y Swyddfa Gynadleddau.

[v] Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol yn trafod y manylion a dderbyniwyd gyda chydweithwyr perthnasol yn y Brifysgol (e.e. Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio, Cysylltiadau Corfforaethol, Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Eiddo a Champws, Undeb y Myfyrwyr, etc.), ac, os bydd angen, gall ymgynghori gydag asiantaethau allanol i geisio cyngor ac arweiniad pellach i oleuo penderfyniad y Brifysgol.

[vi] O fewn pedwar diwrnod o dderbyn manylion y digwyddiad, bydd y Swyddfa Gynadleddau, ar ôl ymgynghori a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol, yn ysgrifenedig, naill ai'n caniatáu neu'n gwrthod i safle'r Brifysgol gael ei ddefnyddio fel lleoliad i'r digwyddiad. Gall y caniatâd a roddir fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y bydd y Cyfarwyddwr yn rhesymol yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol.

[vii] Bydd yn ofynnol bod y Prif Drefnydd a phob un arall sydd ynghlwm wrth drefnu'r digwyddiad a ganiatawyd yn cydymffurfio ag unrhyw a phob amod a osodir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol dan ddarpariaethau'r Polisi hwn.

Gall y cyfryw amodau (lle bo'n berthnasol) gynnwys y gofyniad bod rhaid cael tocyn i fynd i'r digwyddiad, bod rhaid i nifer digonol o stiwardiaid y mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol yn fodlon gyda'u haddasrwydd fod ar gael yn ogystal ag unrhyw staff diogelwch y mae'r Cyfarwyddwr yn teimlo y dylent fod yn bresennol, a bod y trefnwyr yn talu'r costau, neu ba bynnag gyfran o'r costau a ystyrir yn briodol gan y Cyfarwyddwr, sydd ynghlwm â'r trefniadau diogelwch ychwanegol y mae'n eu hystyried y gallent fod yn angenrheidiol.

Bydd gan y Cyfarwyddwr yr awdurdod i osod amodau o ran nifer y gynulleidfa, a chaniatáu neu wahardd mynediad i bersonél y wasg, teledu neu ddarlledu i gyfarfodydd dan y Polisi hwn yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt.

[viii] Mae'n ddyletswydd ar Brif Drefnydd y digwyddiad i sicrhau nad oes dim yn y paratodau at y digwyddiad nac yn y digwyddiad ei hun yn torri'r gyfraith. Mae'n ddyletswydd ar Brif Drefnydd y digwyddiad, i'r graddau y mae'n bosibl, i sicrhau bod y digwyddiad, yn cynnwys y gynulleidfa ac unrhyw siaradwyr, yn ymddwyn yn unol â'r gyfraith yn ystod y cyfarfod. Mewn achos o ymddygiad anghyfreithlon, mae gofyn i'r Prif Drefnydd roi rhybudd priodol ac, os bydd yr ymddygiad anghyfreithlon yn parhau, mynnu bod yr unigolion dan sylw yn gadael neu'n cael eu hebrwng allan gan y stiwardiaid neu'r staff diogelwch.

[xi] Digwyddiad a drefnir gan Brifysgol Bangor

Gall y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn, ac yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir uchod, roi gwahoddiad cyffredinol i bob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd sydd ynghlwm ag ymgyrch etholiad neu refferendwm i gymryd rhan mewn hystingau, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau rhesymol a osodir gan y Brifysgol yn gyfartal ar bob plaid wleidyddol, eu cynrychiolwyr a / neu eu hymgeiswyr.

Dylai myfyrwyr, staff, cyfarwyddwyr a phobl sy'n dal swyddi er anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor ddilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd yn Adran 4 A. [i] – [viii] uchod.

B: Undeb Myfyrwyr Bangor

[i] Bydd y weithdrefn uchod am ganiatâd i gynnal digwyddiad yn berthnasol hefyd i Undeb Myfyrwyr Bangor ac yn y lle cyntaf, dylai clybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol wneud cais i gynnal digwyddiad yn uniongyrchol i Undeb y Myfyrwyr drwy

Gyfarwyddwr neu Lywydd Undeb y Myfyrwyr. Bydd ceisiadau a dderbynnir o fewn y ffrâm amser a nodir yn y polisi hwn wedyn yn cael eu cyfleu i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol drwy'r Swyddfa Gynadleddau. Bydd ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r ffrâm amser a bennwyd yn cael eu cyflwyno yn ôl disgrisiwn Cyfarwyddwr neu Lywydd Undeb y Myfyrwyr.

- [ii] Bydd Cyfarwyddwr neu Lywydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol ac yn gweithredu fel canolwr rhwng y grwpiau hynny a ddisgrifiwyd uchod yn 4 B. (i)

C: Diffyg cydymffurfio

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw unigolyn nad yw wedi derbyn sêl bendith ar gyfer digwyddiad a / neu y bernir nad yw'n cydymffurfio â gofynion y Polisi hwn i adael y safle.

5. Apeliadau

- [a] Gall y Brifysgol wrthod rhoi caniatâd ar gyfer digwyddiad a / neu wrthod llogi ei heiddo i ymgeisydd, plaid wleidyddol neu ei chynrychiolwyr os oes ganddi reswm da i gredu y byddai cynnal y digwyddiad neu logi'r cyfleusterau yn groes i fuddiannau'r Brifysgol, ei myfyrwyr neu ei staff neu os ydynt yn cael eu cynghori gan yr Heddlu neu asiantaeth allanol arall y byddai gwneud hynny yn peri risg o anhrefn gyhoeddus. Byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei ystyried dan y gweithdrefnau a amlinellir yng *Nghod Ymddygiad ar Ryddid i Lefaru* y Brifysgol, a'i gyfleu i'r Prif Drefnydd gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.
- [b] Mewn achosion o'r fath gall y Prif Drefnydd apelio i'r Is-ganghellor o fewn 4 diwrnod o gael ei hysbysu o hynny. Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor yn derfynol ond bydd rhaid adrodd amdano yng nghyfarfod nesaf Cyngor y Brifysgol.
- [c] Gall y Prif Drefnydd hefyd apelio i'r Is-ganghellor yn erbyn unrhyw gyfyngiadau neu amodau ar y digwyddiad a osodwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol, a dylid gwneud unrhyw apêl o fewn 4 diwrnod o gael ei hysbysu o hynny. Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor ar y cyfryw faterion yn derfynol.

6. Awdurdodaeth

Mae'r Polisi hwn yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr.

7. Gweithredu

Daw'r Polisi hwn i rym o 30ain Medi, 2019.

8. Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â'r Pennaeth Cydymffurfio os oes gennych gwestiynau ynglŷn â chynnwys y Polisi hwn neu ynglŷn â'i weithredu.